## PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## ADRODDIAD GWEINIDOG Y CYNULLIAD I'R PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES AR 16 IONAWR 2002

Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar y materion yr oeddynt yn dymuno cael eu hysbysu amdanynt ers fy adroddiad blaenorol ar 12 Rhagfyr. Mae **Atodiad A** yn nodi fy mhrif ymrwymiadau ers yr adroddiad diwethaf.

1. **Blwyddyn Ieithoedd Ewrop a'r Strategaeth Ieithoedd Cenedlaethol**

   Daeth Blwyddyn Ieithoedd Ewrop 2001 i ben ddiwedd y tymor diwethaf, gyda nifer o ysgolion a cholegau ledled Cymru wedi trefnu gweithgareddau i nodi a dathlu'r Flwyddyn. Roedd y digwyddiadau nodweddiadol yn cynnwys 'Her Hwyl Ewropeaidd' a drefnwyd gan chwe ysgol gyfun yn Sir Gaerfyrddin; noswaith o adloniant Ewropeaidd yn Ysgol yr Olchfa, Abertawe ac wythnos o weithgareddau iaith yn Ysgol y Coed Duon. Llwyddodd Ysgol Cyfarthfa ym Merthyr Tudful i ddenu arian gan yr Undeb Ewropeaidd i ddatlu'r Flwyddyn, ac mae'r ysgol yn symud ymlaen â phrosiect cyffrous sy'n cynnwys ail-sefydlu cysylltiadau â gwledydd y mae pobl o Ferthyr wedi ymfudo iddynt yn y gorffennol.

   Mae'r gwaith ar Strategaeth Ieithoedd Cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad bron wedi'i gyflawni yn awr. Mae'r 36 ymateb a dderbyniwyd i'r broses ymgynghori a gynhaliwyd yn gynharach yn 2001 wedi'u dadansoddi, ac mae dogfen derfynol y strategaeth wrthi'n cael ei llunio. Caiff ei chyflwyno gerbron y Cyfarfod Llawn.

   Un o brif elfennau'r strategaeth yw sefydlu cangen o'r Centre for Information on Language Teaching and Research (CILT) yng Nghymru. Mae'r gwaith o sefydlu'r adnodd newydd yma – CILT Cymru – yn datblygu'n dda, ac rydym yn disgwyl y bydd yn weithredol o ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Bydd CILT Cymru yn chwarae rôl allweddol wrth hybu a datblygu addysgu ieithoedd tramor modern.

2. **Anniddigrwydd (Disaffection)**

### Cyd-destun

Dros y blynyddoedd diwethaf mae effeithiau ymddygiad yn yr ysgol a'r cyswllt rhwng annniddigrwydd a thangyflawni wedi dod yn faterion mwy blaenllaw. Er y cafwyd gostyngiad yn nifer y gwaharddiadau parhaol yng Nghymru, i lawr o 473 yn 1996/97 i 337 yn 1999/00, cafwyd

cynnydd yn nifer y penderfyniadau apêl yn erbyn gwaharddiad sy'n cael eu herio gan athrawon. Yn ychwanegol, mae gwaith ymchwil sylweddol yn bodoli bellach yn dangos y rhagolygon gwael sy'n wynebu'r rhai a waherddir o'r ysgol yn barhaol. Mae'r gwaharddiad yn aml yn nodi dechrau ar y llwybr troellog sy'n arwain at allgau cymdeithasol ehangach ac ymwneud â chyffuriau a throseddu.

**Cynhadledd**

Cynhaliodd Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol gynhadledd ynghylch 'Ymdrin ag Anniddigrwydd gyda'n gilydd' ar 30-31 Hydref yn Abertawe. Nod y gynhadledd oedd galluogi'r rhai sy'n llunio polisi a'r rhai sy'n gweithredu'r polisi i edrych yn feirniadol ar ganllawiau presennol y Cynulliad ynghylch Cefnogi Disgyblion a Chynhwysiant Cymdeithasol, a siarad yn ddiflewyn ar dafod am ei gryfderau a'i wendidau, nodi arferion da a chytuno ar ffyrdd o sicrhau mwy o gydweithio aml-asiantaeth. Cafwyd nifer o siaradwyr proffil uchel a nifer o gyflwyniadau treiddgar gan gyfrannwyr yn cynnwys y Prif Arolygwr Susan Lewis o Estyn, David Moore o Arolygiaeth ei Mawrhydi, Llundain; yr Athro Ken Reid o Athrofa Addysg Uwch Abertawe; Mark Provis o INCLUDE; Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru; John Birch, Prif Arolygwr Cynorthwyol o Ogledd Iwerddon a Mal Davies, Pennaeth Ysgol Uwchradd Willows yng Nghaerdydd.

Roedd y cyflwyniadau'n cynnwys herio'r ystadegau ynghylch effaith anniddigrwydd, pwysigrwydd ymyrraeth gynnar, ac arferion llwyddiannus wrth ddarparu 'cwricwlwm amgen'. Edrychwyd ar bwysigrwydd cynhwysiant addysgol er mwyn i ysgolion fod yn effeithiol hefyd yn ogystal â'r rhesymau am anniddigrwydd a diffyg diddordeb ac ymneilltuo oddi wrth y system, a'r angen am ddulliau cadarnhaol gan y staff wrth ymdrin ag ymddygiad a dysgu. Roedd safbwyntiau o leoliadau eraill yn y DU yn werthfawr iawn, ynghyd â'r ddealltwriaeth o sut mae'r problemau hyn wedi'u gosod yng nghyd-destun ehangach cymdeithas ac amgylchiadau diweithdra. Ni ellir ymdrin â'r materion hyn ar eu pennau eu hunain ac mae'n ofynnol cael mewnbwn a chymorth gwahanol asiantaethau. Yn ychwanegol, mae angen i ysgolion weithio'n agos â disgyblion a'u teuluoedd.

Dangosodd cynrychiolwyr o ysgolion a phrosiectau a drefnir gan fudiadau gwirfoddol fod llawer o arferion da yn gweithredu yng Nghymru eisoes. Cyflwynwyd persbectif y bobl ifanc gan gr•p o bobl ifanc.

Mynychwyd y gynhadledd gan oddeutu 200 o gynrychiolwyr, yn cynnwys athrawon, penaethiaid, cynrychiolwyr awdurdodau addysg lleol a chyrff a mudiadau gwirfoddol. Cynhaliwyd sesiynau gweithdy yn y prynhawn ac roedd llawer o drafodaethau cynhyrchiol ac adeiladol. Mae hwyluswyr y grwpiau wedi bod yn adolygu nodiadau trafodaethau'r grwpiau, ond rhai o'r prif themâu a oedd yn amlygu eu hunain oedd:

- Yr angen i gydnabod patrymau ymddygiad ac addysgu'r sgiliau ymddygiad priodol i

ddisgyblion i’w galluogi i ddysgu.
- Y diffyg cyfredol o ran hyfforddi athrawon sut i reoli ymddygiad.
- Galw am ariannu mwy cyson a hirdymor ar gyfer ymdrin â’r materion hyn.
- Yr angen i rannu’r wybodaeth a’r arferion da sy’n bodoli eisoes.
- Yr angen i werthfawrogi cyflawniadau yn ehangach (nid nifer y graddau A-C mewn TGAU yn unig) a chreu mwy o sgôp am gwricwlwm mwy hyblyg.
- Pwysigrwydd cwtogi ar absenoldebau, awdurdodedig ai peidio.

**Cynlluniau i’r Dyfodol**

Mae themâu a thrafodaethau’r gynhadledd yn cael eu gwerthuso ar hyn o brydd a byddant yn cael eu dosbarthu i fynychwyr y gynhadledd yn fuan am eu barn. Yn dilyn hyn byddwn yn llunio cynllun gweithredol erbyn diwedd y Gwanwyn y flwyddyn nesaf. Gall hyn olygu sefydlu nifer o grwpiau gorchwyl a gorffen i ystyried rhai o’r meysydd penodol yn fanwl. Mae’n bosibl y bydd yn ofynnol adolygu’r canllawiau yng Nghylchlythyr 3/99 yn sgil yr ystyriaethau hyn. Mae’r gynhadledd wedi bod yn fforwm werthfawr ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a phrofiadau wrth ymdrin ag anniddigrwydd eisoes, yn yr ysgolion a thrwy ddarpariaeth amgen. Bydd hybu’r dulliau rhannu yma ar draws Cymru a rhwng awdurdodau lleol yn flaenoriaeth hefyd. Clustnodwyd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i alluogi nodi a chefnogi prosiectau peilot yn ymwneud â’r prif feysydd uchod. Faint?

**3. Penodi Prif Arolygwr, Estyn.**

Penodwyd y Prif Arolygwr Addysg a Hyfforddiant, Susan Lewis, am gyfnod o bum mlynedd i ddechrau, gyda’r posibilrwydd o adnewyddu’r penodiad. Mae hyn yn cyd-fynd â’r ddarpariaeth yn Neddf Arolygiadau Ysgol 1996 ac arferion gorau o ran cyfraith cyflogaeth. Daw cyfnod y Prif Arolygwr yn y swydd i ben ar 31 Mai ac felly mae goblygiad cytundebol y dylid cynnig y cyfle iddi hi gael ei hystyried am gyfnod pellach yn y swydd. Yn yr un modd mae goblygiad i gynnal adolygiad priodol ac, yn dibynnu ar y canlyniad, gellid cynnig ail-benodi’r Prif Arolygwr. Pe cyflwynid argymhelliad i beidio ag ail-benodi o ganlyniad i’r arolygiad, yna gweithredir camau i lenwi’r swydd drwy gystadleuaeth agored. Mae’r Prif Arolygydd wedi cadarnhau ei bod yn dymuno cael ei hystyried am gyfnod pellach yn y swydd a gwnaed trefniadau i gynnal adolygiad perfformiad priodol gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol.

Yn groes i sylwadau ar y cyfryngau, nid oes unrhyw gyfrinachau o ran cyfansoddiad y panel adolygu. Bydd y panel yn cael ei gadeirio gan Uwch Gyfarwyddwr Polisi Cymdeithasol a Materion Llywodraeth Leol y Cynulliad, George Craig, gyda chefnogaeth yr Athro H R Evans, Is Ganghellor, Prifysgol Cymru, Bangor a Rudi Plaut, Cadeirydd Northmace Ltd. Mae’r panel yn darparu sicrwydd o annibynniaeth a phrofiad. Ei dasg yw darparu barn diragfarn, wedi’i seilio ar wybodaeth, ar berfformiad y Prif Arolygwr a’i gallu i ddiwallu gofynion y rôl o fis Mehefin 2002 ymlaen. Bydd argymhelliad y panel yn ffurfio sail y cyngor i’r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd y penderfyniad terfynol, wrth gwrs, yn nwylo’r Cyfrin Gyngor. Os argymhellir ail-

benodi, rhagwelir y bydd y mater yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cyfrin Gyngor ym mis Mawrth.

**4. Adolygiad Cymwysterau Safon Uwch / Cwricwlwm 2000**

Ar 18 Rhagfyr cyhoeddais ganlyniadau'r adolygiad ynghylch cymwysterau Safon Uwch. Roedd yr adolygiad yn cadarnhau cefnogaeth eang i'r egwyddorion a oedd yn sail i'r newidiadau a gyflwynwyd ym mis Medi 2000. Yn fwy na hynny, roedd tystiolaeth fod ysgolion a cholegau yn addasu i'r cymwysterau diwygiedig. Mae'r mesurau a gyhoeddais ym mis Medi hanner ffordd drwy'r adolygiad yn cael effaith gadarnhaol. Wrth gwrs, gwnawn barhau i geisio gwneud gwelliannau, mae honno'n broses barhaus.

Roedd canlyniadau arholiadau Haf 2001 yn galonogol iawn ac yn dysteb i waith caled y myfyrwyr a'r staff yn ein hysgolion a'n colegau. Bydd y mesurau a gyhoeddais yn cynorthwyo i adeiladu ar hyn, wrth i'r cymwysterau newydd ymwelyo.

Un maes lle cafwyd problemau amlwg fu Mathemateg UG. Caiff y manylebau ar gyfer Mathemateg UG eu diwygio'n ofalus i sicrhau bod y cynnwys yn hydrin, heb golli trylwyredd. Yn y cyfamser, cyflwynir mesurau i gynorthwyo'r myfyrwyr sy'n gweithio'n unol â'r manylebau presennol.

Rwy'n arbennig o falch fod y cymwysterau newydd yn setlo'n dda a bod cefnogaeth eang i'r egwyddorion sy'n sail i'r newidiadau. Mae hyn yn newyddion da i brosiect Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu Bagloriaeth Gymreig, gan fod model CBAC wedi'i seilio ar y cymwysterau diwygiedig.

**5. Cyfrifon Dysgu Unigol**

Hysbyswyd y pwyllgor drwy lythyr ar 21 Rhagfyr ynghylch y penderfyniad i ohirio'r rhaglen Cyfrif Dysgu Unigol yng Nghymru. Gohiriwyd ceisiadau am ymaelodi o'r newydd am hanner nos ar 21 Rhagfyr. Neilltuwyd y rhaglen Cyfrifon Dysgu Unigol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (a'i gohirio yn yr Alban) ym mis Tachwedd o ganlyniad i honiadau o dwyll, dwyn a mynediad diawdurdodedig i system gyfrifiadurol Cyfrifon Dysgu Unigol dan reolaeth Capita.

Bu pryder cynyddol am beth gweithgareddau diegwyddor yng Nghymru gan rai cwmnïau marchnata a Darparwyr Dysg. I ddechrau roedd y Cyngor Cenedlaethol o'r farn fod ganddo'r mesurau angenrheidiol yn eu lle i ymdrin â gweithgareddau o'r fath a'i fod wedi meintioli maint y risg. Fodd bynnag, yn sgil graddfa dybiedig y twyll yn Lloegr a'r sefyllfa fwyfwy bregus yng Nghymru wedi i'r cynllun ddirwyn i ben ymhob rhan o'r DU ddiwedd Rhagfer derbyniwyd argymhelliad Swyddog Cyfrifon y Cyngor Cenedlaethol y dylid atal y cynllun er mwyn asesu dulliau gweithredu'r Cyfrifon Dysgu Unigol yn llawn.

Bydd y Cyngor yn anrhydeddu ceisiadau a oedd yn aros i’w cymeradwyo cyn i’r gohiriad ddod i rym. Bydd gan ddysgwyr nad ydynt wedi defnyddio eu Cyfrif Dysgu Unigol gwerth £150 yn llawn chwe wythnos i ddewis cwrs dysgu ac yna chwe mis i ddefnyddio gweddill yr arian yn eu Cyfrif. Bydd yr holl daliadau cyfreithiol sy’n ddyledus i ddarparwyr dysg yn cael eu prosesu. Yn ystod cyfnod atal y cynllun bydd y Cyngor Cenedlaethol yn gwerthuso’r cynllun yn llawn yn ogystal ag asesu’r camau rheoli a’r systemau sy’n angenrheidiol i ymdrin ag unrhyw Ddarparwyr Dysg diegwyddor. Bydd atal y cynllun dros dro yn caniatáu cyfle i ddatblygu olynydd i’r cynllun a fydd hyd yn oed yn fwy cost effeithiol ac yn gallu gwrthsefyll camddefnydd yn well.